Gorffennaf – Medi 2023

## Diweddariad Chwarterol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd:

## Gorffennaf - Medi 2023

| Cyfanswm y rhai a fu drwy'r ddalfa | Nifer yr ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol | Cyfanswm y rhai yn y ddalfa ar adeg yr Ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol | Cyfanswm y rhai yn y ddalfa nad oedd ar gael | Nifer y rhai yn y ddalfa a welwyd | Cyfanswm y rhai yn y ddalfa yr ymwelwyd â hwy |
|---|---|---|---|---|---|
| 1907 | 34 | 100 | 38 | 24 | 30 |

### Ymwelwyr Annibynnol Gweithredol: 18

- Sir Benfro: 5
- Powys: 4
- Ceredigion: 4
- Sir Gaerfyrddin: 5

### Diweddariad am y Cynllun:

- Mae ffurflenni adrodd electronig newydd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn gweithio'n dda, gyda mwy o gapasiti i ehangu materion a godwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd neu garcharorion yr ymwelwyd â hwy gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.
- Mae oedi parhaus o ran darpariaeth gofal iechyd ar gyfer dalfeydd. Cyflwynwyd telefeddygaeth er mwyn helpu i ofalu am garcharorion, sy'n caniatáu i ymarferwr meddygol cymwys werthuso anghenion carcharor o bell; fodd bynnag, nid oes modd i staff dalfeydd weinyddu meddyginiaeth na darparu unrhyw driniaeth feddygol benodol. Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd o hyd yn tynnu sylw at y mater hwn ac mae'n cael ei ddwyn i sylw'r Prif Arolygydd Dalfeydd.
- Mae prinder staff mewn dalfeydd dal yn effeithio ar weithrediad dalfeydd penodol. Mae sicrwydd wedi'i roi erbyn hyn bod y mater hwn wedi'i ddatrys. Roedd y materion yn ymwneud â staff yn newid drosodd, gwyliau blynyddol, absenoldebau salwch ac ati. Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn parhau i fonitro a chynghori yn unol â hynny.
- Mae galwadau dewis 1 a wneir gan aelodau o'r cyhoedd sy'n galw'r gwasanaeth 101 yn achosi anawsterau i aelodau staff yn y dalfeydd. Yn aml iawn, mae'r galwadau'n cael eu dargyfeirio'n anghywir i staff dalfeydd yn hytrach na'r ganolfan alwadau.
- Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd dal yn adrodd am faterion atgyweirio parhaus, gan gynnwys seinwyr galw cell wedi torri, goleuadau cell diffygiol a chloch drws diffygiol sy'n effeithio ar ymwelwyr ar alwad, gan gynnwys oedolion priodol a chyfreithwyr ar ddyletswydd, sy'n methu â hysbysu'r ddalfa am eu presenoldeb. Mae'r holl atgyweiriadau a awgrymwyd wedi'u cwblhau.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Gorffennaf – Medi 2023

**Ymateb yr Heddlu:**

Mewn perthynas â'r arsylwadau uchod, dyma farn y Prif Arolygydd Andrew Pitt, sy'n cyflwyno sylwadau ar ran Heddlu Dyfed-Powys:

***"Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd am eu gwaith gwerthfawr, sy'n rhoi "llygaid ffres" inni edrych ar broblemau posibl, sy'n medru rhoi safbwynt gwahanol i ni sy'n gweithio o fewn yr amgylcheddau bob dydd.***

***Yn aml iawn, bydd arsylwadau'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn adlewyrchu materion yr ydym yn ymwybodol ohonynt, ond mae'r safbwynt annibynnol yn rhoi mwy o bwys i'r ddadl dros welliant a newid.***

***Byddai enghreifftiau o hyn yn cynnwys darpariaeth darparwyr gofal iechyd yn y dalfeydd y tynnwyd sylw'n darparwr atynt ac sydd wedi gweld y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn mynd i'r cyfarfod perfformiad misol gyda'r darparwr i dynnu sylw pellach at y ddarpariaeth a cheisio gwelliannau iddo, â'r nod o wella gwasanaeth i garcharorion a'n staff fel ei gilydd.***

***Mae'n dda gennyf adrodd y bu gwelliant yn nifer y staff gofal iechyd sydd ar gael i wasanaethu galw, ac mae mwy'n mynd drwy ein proses fetio. Fodd bynnag, nid ydym dal wedi cyrraedd y lefel sydd angen arnom, ac fel heddlu, yr ydym yn gweithio i gefnogi'r darparwr gyda recriwtio ychwanegol a fydd yn cynnwys digwyddiad yn Aberystwyth ddechrau'r flwyddyn newydd.***

***Mae'r Prif Uwch-arolygydd sy'n gyfrifol am ddalfeydd hefyd wedi trefnu cyfarfod Goruchwyliaeth o Ddalfeydd, sy'n cynnwys yr holl Uwch-arolygwyr daearyddol ac sy'n adolygu materion pwysig, megis niferoedd staff, er mwyn sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael â meysydd allweddol sydd uwchlaw lefel penderfynu Arolygwyr Dalfeydd.***

***Yr ydym hefyd wedi cyflwyno ymweliadau gan Wasanaethau Dalfa'r Pencadlys a thîm AHEF â'r dalfeydd yn ddiweddar i archwilio amrywiaeth o faterion, gyda rhestr wirio sy'n edrych ar amrywiaeth o agweddau, o ymddangosiad yr ystâd i ddarpariaeth eitemau angenrheidiol, megis cynnyrch hylendid a thestunau crefyddol."***